Pêl-droed

Cafwyd tymor llwyddiannus arall gan Fois Bro Dafydd a Bois y Fro. Mae un gêm fawr ar ôl – yn erbyn ei gilydd! Pob lwc i'r ddau dîm.

Bydd y Penrhyn yn rownd derfynol y Gwpan yng Nghoedlan y Parc fis nesaf. Disgwylir iddynt orffen yn agos i'r brig yn y gynghrair. Rhaid diolch o galon i Mr Vaughan, Mr Reynolds a Mr Jenkins am eu gwaith trwy gydol y flwyddyn.

Cyfraniadau

Casglwyd dros £470 i gronfa NSPCC a £75 i gronfa Mozambique. Diolch i bawb am eu cyfraniadau i'r achosion teilwng hyn.

Diolch

Llawer o ddiolch i'r Parchedig Gareth Rowlands am ei gyfraniad i wasanaeth boreol yr ysgol.

Tocynnau

Archebwyd ugain CD-Rom gyda thocynnau'r *Times*. Rydym yn dal i gasglu tocynnau Walkers, McVities, Nestlé a Tetley.

Cofiwch amdanom!